


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru - Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae

## Adolygiad Gweinidogol o Gamau Gweithredu Chwarae

Adroddiad Cynnydd – Chwefror 2025

Fersiwn i blant

# Helo

**Mae chwarae yn bwerus.** Nid oes ots beth yw eich oedran, mae chwarae yn eich helpu i ddysgu, datblygu sgiliau newydd, a thyfu mewn hyder.

Mae'n gadael i chi fod yn greadigol, yn chwilfrydig ac yn anturus.

Mae chwarae'n ymwneud â datrys problemau, cysylltu syniadau, a thrafod heriau. Felly rydych chi'n cael deall bod camgymeriadau... yn rhan o ddysgu.

Hefyd, rydych chi'n gwneud ffrindiau, yn dysgu deall pobl, ac yn adeiladu ymddiriedaeth.

Mae chwarae yn rhoi lle i chi brosesu emosiynau, gwneud synnwyr o'r byd, a datblygu gwydnwch.

Ond yn bennaf oll... mae'n **HWYL!**



Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn a pherson ifanc gael llawer o gyfleoedd i chwarae.

## Ein gweledigaeth:

# "Cymru- Gwlad Lle Mae Cyfle i Chwarae"

# Ein taith o wella chwarae

**2019**

Rhwng **2019 a 2022**, fe wnaethom sefydlu grŵp i weld pa gyfleoedd chwarae sydd ledled Cymru.

**2022**

Siaradodd y grŵp â phlant, pobl ifanc a hyd yn oed rhai oedolion i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw.

**2023**

Yna ysgrifennon nhw adroddiad llawn syniadau ar sut y gallwn greu mwy o gyfleoedd i chwarae.

**2024**

O hynny, fe wnaethom ni gychwyn **67 o gamau gweithredu** i wella chwarae yng Nghymru.

**2025**

**Nawr** — Mae hyn yn dweud wrthych am rai o'r pethau rydym wedi'u gwneud hyd yn hyn.

## Os ydych chi'n byw yng Nghymru... mae gennych chi'r hawl i orffwys, ymlacio a chwarae!

**Erthygl 31.** Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).



## Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud...

# ...i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael mwy o gyfleoedd i chwarae

Fe wnaethon ni wneud yn siŵr bod pobl ledled Cymru yn gwybod am eich hawl i chwarae.

Mae gennym ni Hyrwyddwyr Chwarae. Maen nhw'n gweithio ledled Cymru yn sicrhau eich bod chi'n cael mwy o gyfleoedd i chwarae!

Rydym ni wedi gwneud yn siŵr bod ein holl waith yn cefnogi eich hawliau.

Fe wnaethon ni roi cyllid i sefydliadau fel Chwarae Cymru. Maen nhw'n hyrwyddo eich hawliau ac yn gwneud cyfleoedd i chwarae.

Rydym ni wedi cefnogi awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod llawer o gyfleoedd i chwarae.

Rydym ni wedi hyrwyddo digwyddiadau fel Diwrnod Chwarae Rhyngwladol a Diwrnod Chwarae'r DU.

Fe wnaethon ni gymryd rhan mewn digwyddiadau ar-lein a rhannu gwybodaeth am eich hawl i chwarae.

Fe wnaethon ni sicrhau bod pobl yn meddwl am eich hawl i chwarae pan fyddant yn cynllunio pethau newydd.

Fe wnaethon ni wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod sut i'ch cadw'n ddiogel.

Fe wnaethom ni wrando ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut y gallwn ni wella chwarae yng Nghymru.

Fe wnaethon ni gefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

....a llawer mwy

## Diolch am ddarllen hyn

